## DISGRIFIAD SWYDD

**TEITL Y SWYDD: Gweithiwr Ymyrraeth Galw Heibio ac Allgymorth Cymunedol YHUB**

**CYFEIRNOD Y SWYDD:** YHUB/Outreach

**LLEOLIAD:** YMCA Abertawe

**YN GYFRIFOL I:** Cydlynydd Y-Hub

**PORTFFOLIO:** Adran Ieuenctid a Chymuned

**ORIAU:** 37.5 awr yr wythnos

**CYFLOG:** £24360 (pro rata)

**CYTUNDEB:** Hyd at Fawrth 2027

**ARIANNWR:** Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Morgannwg: Cronfa Integreiddio Rhanbarthol

### 1.0: CYFLWYNIAD

Sefydlwyd YMCA Abertawe ym 1886. Rydym yn elusen leol sy'n cael ei llywodraethu gan ein bwrdd ymddiriedolwyr ac rydym yn cyflogi tîm medrus ac ymroddedig i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth yn Abertawe ac mewn cymunedau ledled Cymru. Mae YMCA Abertawe yn aelod balch o Ffederasiwn YMCA ac yn credu bod pob person ifanc yn haeddu'r cyfle i fod y fersiwn orau ohonynt eu hunain, i gael eu lleisiau wedi'u clywed ac y dylent helpu i lunio cymdeithas well ar gyfer eu dyfodol eu hunain. Mae pum gwerth moesol cryf a nodedig yn nodweddiadol o'r ffordd rydym yn gweithredu yn YMCA Abertawe.

- **Rydym yn gwrando:** Dylai ein gwasanaethau gael eu llunio gan y bobl ifanc eu hunain a dylent ymateb i anghenion y gymuned.
- **Rydym yn croesawu:** Dylai ein gwaith geisio agor y drysau i bawb waeth beth fo'u ffydd, ethnigrwydd, cefndir, rhyw neu hunaniaeth.
- **Rydym yn ysbrydoli:** Dylai ein gwaith fod o'r safon uchaf, lle mae gan YMCA Abertawe enw da y mae eraill, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau, yn ceisio ei efelychu.
- **Rydym yn grymuso:** Rydym yn creu amgylchedd sy'n annog ac yn hwyluso hyder ac ymreolaeth.
- **Rydym yn cyfrannu:** Rydym yn defnyddio ein profiad ni a phrofiad y rhai rydym yn gweithio gyda nhw i lunio dyfodol gwell drwy greu amgylchedd sy'n caniatáu i bobl ifanc eirioli dros ei gilydd.

Mae gan YMCA Abertawe hanes hirsefydlog o gynorthwyo pobl ifanc sy’n agored i niwed, mewn perygl ac sydd yn aml â Nodweddion Gwarchodedig, ac nad yw’n hawdd iddynt gyrraedd y ddarpariaeth brif-ffrwd. Rydym yn cynorthwyo pobl ifanc trwy amrywiaeth o ddulliau gwaith ieuenctid. Y prif rai yw rheoli achosion un i un, gwaith grŵp, clybiau ieuenctid, galw heibio, darpariaeth ar lein, tripiau a gweithgareddau, gweithgareddau preswyl ac ymyriadau allgymorth.

**Bydd y Gweithiwr Cymorth Ieuenctid newydd yng Nghanolfan Galw Heibio YHUB yn rhan o dîm gweithredol, yn gyfrifol am gyflwyno arferion gwaith ieuenctid ardderchog o fewn yr Adran Ieuenctid a Chymunedol. O dan reolaeth llinell Cydlynydd YHUB, bydd y Gweithiwr Cymorth Ieuenctid Allgymorth a Chymunedol yn ymgysylltu'n rhagweithiol â phobl ifanc yn eu cymunedau, gan gwrdd â nhw lle bynnag maen nhw — boed hynny drwy waith ieuenctid ar y stryd, mewn ysgolion, neu mewn lleoliadau a gwasanaethau ieuenctid eraill. Byddant yn meithrin perthnasoedd ymddiriedus, yn hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael ac yn cynnig arweiniad wedi'i deilwra. Bydd y rôl yn cynnwys cyflwyno sesiynau ymgysylltu anffurfiol a sesiynau strwythuredig, gan helpu pobl ifanc i gael mynediad at gyfleoedd ar gyfer datblygiad personol, addysg a lles.**

**Bydd angen gwiriad DBS (Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd) manylach ar gyfer gweithgaredd rheoleiddiedig (CRB gynt) ar gyfer y rôl hon.**

## Y-HUB

Ar hyn o bryd caiff Y-Hub ei ddarparu ar draws tri maes allweddol o ddulliau gwaith ieuenctid: Clwb Ieuenctid i bawb, a gynhelir ar nosweithiau Gwener, a darpariaeth Allgymorth/Gwaith Stryd a chanolfan galw-heibio 5-diwrnod wedi'i leoli yng nghanol dinas Abertawe. Ein nod yw creu cymunedau lle mae pobl ifanc wir yn perthyn, yn cyfrannu ac yn ffynnu. Mewn dros flwyddyn o gyflwyno'r meysydd hyn gyda'i gilydd, rydym wedi gweld bod Y-Hub yn wasanaeth amhrisiadwy wrth gyflawni hyn. Mae Y-Hub yn brosiect sydd yn bendant yn newid bywydau ac, ar adegau, yn eu hachub.

Cyflwynir yr elfen **Allgymorth** mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan fynd â chefnogaeth a gweithgareddau'n uniongyrchol i bobl ifanc yn eu hamgylcheddau, gan ymgysylltu'n aml â'r rhai sydd mewn perygl o gael eu camfanteisio a phobl eraill agored i niwed. Mae ffocws craidd yn parhau ar feithrin perthnasoedd ystyrlon â phobl ifanc yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch, gan eu hannog i ymgysylltu â gwasanaethau eraill yn y ganolfan. Yn ogystal â'n gwaith ar y stryd, rydym yn gweithio'n agos gydag ysgolion ledled Abertawe, gan ddarparu clybiau amser cinio rheolaidd a sesiynau galw heibio, gan fynd â'n gwasanaethau'n uniongyrchol i'r bobl ifanc. Mae ein hymdrechion allgymorth hefyd yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â phrosiectau a gwasanaethau allgymorth cymunedol ehangach, a'u cefnogi. Rydym yn gweithio ar y cyd â phartneriaid lleol a mentrau cymunedol i ymgysylltu â phobl ifanc ac yn ymateb yn hyblyg i anghenion pobl ifanc a'r gymuned ehangach wrth iddynt ddod i'r amlwg.

I ategu ein hymdrechion allgymorth, mae ein **Clwb Ieuenctid Nos Wener** yn darparu lle croesawgar lle gall pobl ifanc gael mynediad at gefnogaeth fwy dwys, sy'n seiliedig ar anghenion. Wedi'i leoli yng nghanol dinas Abertawe, mae clwb ieuenctid Y-Hub yn cynnig amgylchedd cyson, diogel a chynnes ar nosweithiau Gwener, gan helpu i leihau bregusrwydd pobl ifanc trwy ddarparu dewis arall yn lle treulio amser ar y strydoedd. Mae'r clwb yn cynnig pryd poeth, cytbwys a maethlon bob wythnos, gan sicrhau bod gan bobl ifanc fynediad at o leiaf un pryd poeth yn rheolaidd, tra hefyd yn meithrin sgiliau bywyd hanfodol trwy sesiynau coginio hwyliog ac addysgol. Mae Y-Hub yn creu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys celf a chrefft, gwneud cerddoriaeth, karaoke, a detholiad o gemau. Mae pob wythnos hefyd yn cynnwys gweithgaredd seiliedig ar bwnc sy'n ymdrin â materion pwysig fel iechyd rhywiol, llinellau cyffuriau, perthnasoedd iach, defnyddio sylweddau, ffiniau, cymryd risgiau, camfanteisio a mwy.

Drwy ymgynghori parhaus ac adborth gan bobl ifanc, rydym wedi nodi galw clir a pharhaus yn Abertawe am wasanaethau cymorth ieuenctid hygyrch a diolch i gyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, rydym wedi datblygu ac ehangu ein darpariaeth bresennol, i gynnig canolfan **galw heibio 5 diwrnod** unigryw ac arloesol, sydd bellach wedi bod ar agor ers dros flwyddyn. Mae'r ganolfan galw heibio wedi dod yn ganolfan gymorth ffyniannus, mawr ei angen, gan ddarparu man cyson, hygyrch a diogel i bobl ifanc dderbyn cymorth wedi'i deilwra. Mae hefyd yn galluogi ymgynghori parhaus â phobl ifanc, gan sicrhau bod y gwasanaeth yn esblygu i adlewyrchu eu blaenoriaethau ac anghenion y gymuned ehangach. Mae'r ganolfan galw heibio yn croesawu amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau eraill, gan sicrhau y gall pobl ifanc gael mynediad at y gefnogaeth gywir ar yr amser cywir. Mae llawer o'r bobl ifanc sy'n manteisio ar y ddarpariaeth hon yn wynebu rhwystrau lluosog ac angen cefnogaeth ddwys, ochr yn ochr â chyfleoedd i feithrin sgiliau bywyd hanfodol. Mae'r ganolfan galw heibio 5 diwrnod yn cynnig man diogel lle gall pobl ifanc dreulio amser, cysylltu â chyfoedion a bod yn nhw eu hunain. Gallant gymryd rhan mewn sesiynau, gweithdai a chyfleoedd hyfforddi sy'n seiliedig ar bynciau, cael mynediad at ystod o wasanaethau allanol a ddarperir gan sefydliadau partner a chael Gweithiwr Cymorth Ieuenctid wedi'u penodi iddynt a all ddarparu cymorth rheolaidd a dibynadwy ar draws ystod eang o bynciau bywyd.

Mae Y-HUB bellach yn rhaglen amlochrog, gyfannol sy'n cefnogi pobl ifanc i gyflawni canlyniadau mwy cadarnhaol drwy:

- **Canolfan galw heibio unigryw ac arloesol dros gyfnod o bum diwrnod –** a fydd nid yn unig yn cynnig lle diogel cyson a hygyrch i bobl ifanc gael cymorth ond hefyd yn galluogi proses ymgynghori barhaus er mwyn sicrhau bod ein gwasanaeth yn addas i'r diben ac yn cyflawni blaenoriaethau'r gymuned

- **Clwb Ieuenctid -** a fydd yn cynnig lle diogel a deniadol i bobl ifanc sy'n agored iawn i ymddygiad gwrthgymdeithasol, masnachu pobl a chamfanteisio. Byddwn yn rhoi blaenoriaeth i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol nid yn unig y rhai sy'n ymgysylltu â'r prosiect yn uniongyrchol ond y rhai sydd yn y gymuned yn gyffredinol.

- **Allgymorth –** Ehangu'r gwaith allgymorth presennol, gan gysylltu â phobl ifanc ar y strydoedd, mewn ysgolion a phlant sy'n cael eu haddysg yn y cartref, eu helpu i gyrchu gwasanaethau eraill a'u cyfeirio at wasanaethau YMCA Abertawe.

- **Cymorth dwys un-i-un –** a fydd yn cynnig cymorth gwaith ieuenctid dwys, yn helpu i oresgyn rhwystrau personol, cyfeirio, cymorth lles, cymorth i fyw'n annibynnol, a chyfleoedd dysgu drwy brofiad. Bydd yn galluogi Gweithwyr Ieuenctid i feithrin perthnasoedd proffesiynol, dibynadwy y gellir ymddiried ynddynt â'r bobl ifanc hynny pan fo wir eu hangen arnynt, pobl ifanc nad oes gan lawer ohonynt neb arall i droi ato ac unman arall i fynd.

**- Cyngor a Chymorth gyda Hyfforddiant/Addysg** – Cynnig cyfleoedd addysgol mewnol i bobl ifanc feithrin sgiliau newydd. Cefnogi pobl ifanc i fanteisio ar amrywiaeth o gyfleoedd allanol yn seiliedig ar eu hanghenion, eu diddordebau a'u dyheadau.

**- Darpariaeth Ieuenctid a Chymunedol Gofleidiol Iawn** – Gweithio yn adran Ieuenctid a Chymunedol ehangach YMCA Abertawe, i sicrhau ein bod yn gweithio mewn modd cyfannol gan gynnig cyfleoedd i bobl ifanc gyrchu cymorth LHDTC+, Cerddoriaeth a'r Celfyddydau, Rhaglenni Haf, Tripiau a Gweithgareddau a mwy.

## 2.0 DISGRIFIAD SWYDD/DYLETSWYDDAU

Gweithio dan gyfarwyddyd y Prif Weithredwr, y Rheolwr Ieuenctid a Chymunedol a'r Cydlynydd Y-HUB i gynorthwyo â'r gwaith o gyflawni Darpariaeth Gwaith Ieuenctid YMCA Abertawe. Y rôl yw cefnogi Pobl Ifanc 11-25 oed. O ystyried yr heriau mae pobl ifanc yn eu hwynebu - heriau sy'n newid ac yn ehangu o hyd - credwn fod y swydd hon yn hollbwysig er mwyn mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc trwy gynnig cymorth, cyngor ac arweiniad iddynt. Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â'r swydd wedi'u rhestru isod. Fodd bynnag, gellid eu newid neu eu mireinio wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Gweithio gyda Chydlynydd Y-Hub i hwyluso'r gwaith o gynllunio a chyflwyno gwasanaeth Y-Hub Abertawe ac i sicrhau y caiff ymarfer gwaith ieuenctid o ansawdd uchel ei gyflwyno ar gyfer y bobl ifanc sy'n defnyddio'r prosiect. **Bydd y prif ddyletswyddau'n cynnwys:-**

1. Darparu cefnogaeth allgymorth Gwaith Ieuenctid drwy ymgysylltu â phobl ifanc mewn mannau cyhoeddus fel parciau, strydoedd neu ganol trefi, gan gysylltu â gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol allgymorth eraill yn Abertawe.
2. Gweithio'n annibynnol neu mewn timau mewn cyd-destunau datgysylltiedig i nodi pobl ifanc sydd mewn perygl o ynysu cymdeithasol, ymddygiad gwrthgymdeithasol neu o fod yn agored i niwed.
3. Cyflwyno clybiau amser cinio ysgol strwythuredig a chynlluniedig a sesiynau allgymorth mewn ysgolion ledled Abertawe mewn partneriaeth â gwasanaethau eraill o dan yr Adran Ieuenctid a Chymuned.
4. Adeiladu perthnasoedd rhagorol gyda phobl ifanc drwy gyfarfod â nhw lle maen nhw, gan greu ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd.
5. Nodi anghenion cymunedol a chreu perthnasoedd cadarnhaol ag unigolion neu grwpiau, yn enwedig y rhai nad ydynt yn ymwneud â gwasanaethau cymorth ffurfiol.
6. Cynnig cefnogaeth un-i-un wedi'i adeiladu o amgylch uwchsgilio ac i rymuso pobl ifanc.
7. Cynnig sgyrsiau ystyrlon, cyngor ac addysg anffurfiol mewn amser real, mewn lleoliadau heb eu cynllunio.
8. Ymdrin â materion sensitif sy'n effeithio ar bobl ifanc, megis iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, tai neu gyflogaeth.
9. Meddu ar wybodaeth ragorol am wasanaethau yn Abertawe a chysylltu pobl ifanc â gwasanaethau perthnasol, megis cymorth iechyd meddwl, cyngor ar dai, neu gynlluniau cyflogaeth.
10. Eirioli ar ran pobl ifanc gyda sefydliadau allanol, gan sicrhau bod eu hanghenion a'u hawliau'n cael eu diwallu.
11. Helpu pobl ifanc i ddeall eu dewisiadau a'u cefnogi i wneud penderfyniadau gwybodus.
12. Trefnu a chyflwyno gweithgareddau anffurfiol wedi'u teilwra i anghenion a diddordebau pobl ifanc yn eu cymunedau.
13. Annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol sy'n hyrwyddo twf personol, gwaith tîm a hunanfynegiant.
14. Cadw cofnodion cywir o ymrwymiadau a gweithgareddau, gan gynnal cyfrinachedd lle bo angen.
15. Sicrhau bod fframweithiau fel Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid, Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion, Pum Ffordd at Les ac Egwyddorion Grymuso Ieuenctid yn cael eu hymgorffori wrth gynllunio unrhyw weithgareddau a rhaglenni.
16. Darparu cefnogaeth gwaith ieuenctid o safon i bobl ifanc, gan fynd i'r afael â'r heriau/rhwystrau maen nhw'n eu profi (e.e. emosiynol, cymdeithasol neu ymarferol).
17. Adeiladu a chynnal perthnasoedd proffesiynol cryf gydag ystod eang o wasanaethau a gweithwyr proffesiynol eraill, er mwyn gweithio mewn partneriaeth a rhwydweithio rhagorol sydd er budd gorau pobl ifanc.
18. Gweithio ar y cyd ag aelodau staff a gwirfoddolwyr eraill i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel.
19. Cynnal asesiadau risg, gan gydbwyso diogelwch â budd risg ar gyfer twf a datblygiad personol.
20. Darparu adroddiadau rheolaidd i reolwyr llinell, gan fyfyrio ar lwyddiannau, heriau, a meysydd i'w datblygu.
21. Dangos sgiliau trylwyr wrth gynllunio, cofnodi a gwerthuso arferion gwaith ieuenctid.
22. Sicrhau bod cynlluniau sesiynau gweithgareddau, asesiadau risg a gwerthusiadau prosiectau bob amser yn gyflawn ac yn hygyrch.
23. Defnyddio data i werthuso effaith gwaith allgymorth a llywio cynllunio ar gyfer y dyfodol.
24. Gweithio fel rhan o dîm Y-Hub, dan gyfarwyddyd Cydlynydd Y-Hub i gyflawni Targedau, Nodau a Chanlyniadau'r prosiect – gan sicrhau bod holl ganlyniadau'r prosiect yn cael eu cwblhau'n llwyddiannus.
25. Paratoi a chynnal cofnodion cyfranogwyr yn unol â Rheoliadau GDPR.
26. Sicrhau bod gwaith ieuenctid o safon yn cael ei gyflwyno, trwy ystod o ddulliau gwaith ieuenctid, gan ddilyn Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru 2019.
27. Cefnogi pobl ifanc drwy wybod eu hawliau ac eirioli drostynt yn ogystal â'u cefnogi i gael llais o fewn eu cymuned.

28. Paratoi adroddiadau diweddaru ar brosiectau fel sy'n ofynnol ar gyfer monitro mewnol ac arianwyr allanol. Cysylltu â phartneriaid prosiect i gasglu'r holl dystiolaeth brosiect fel sy'n ofynnol gan y corff ariannu.
29. Gweithio gyda'ch cydweithwyr yn YMCA i sicrhau y caiff nodau ac amcanion trosfwaol YMCA Abertawe a'r Tîm Ieuenctid a Chymunedol eu cyflawni.
30. Hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i YMCA Abertawe a'i wasanaethau.
31. Cyfrannu at oruchwyliaeth ac arfarniadau gwaith rheolaidd.
32. Cwblhau hyfforddiant, fel y bernir yn angenrheidiol i lwyddiant y swydd.
33. Cyflawni unrhyw ddyletswyddau pellach y bernir eu bod yn angenrheidiol i lwyddiant y Tîm Ieuenctid a Chymunedol.

## 3.0 MANYLEB PERSON

| | |
|---|---|
| **Profiad a Gwybodaeth** | • Profiad o weithio gyda phobl ifanc mewn lleoliadau cymunedol, yn enwedig mewn gwaith ieuenctid allgymorth neu ddatgysylltiedig.<br>• Profiad o cynllunio, cyflwno a dangos tystiolaeth gyda cefnogaeth un-i-un gyda pobl ifanc.<br>• Profiad o ddatblygu cymunedol<br>• Gwybodaeth am yr ardal leol a'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc yn y gymuned<br>• Profiad o gyflwyno addysg anffurfiol neu weithgareddau creadigol mewn lleoliadau allgymorth<br>• Sgiliau rhyngbersonol cryf a'r gallu i feithrin ymddiriedaeth a chydberthynas yn gyflym â phobl ifanc o gefndiroedd amrywiol.<br>• Gwybodaeth ragorol am Iechyd a Diogelwch a pholisi a gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan<br>• Profiad o adrodd ar ddiogelu a'i gofnodi.<br>• Gwybodaeth a phrofiad o gofnodi, monitro a gwerthuso prosiectau<br>• Dealltwriaeth ragorol o werthoedd ac egwyddorion gwaith ieuenctid yn seiliedig ar Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol Gwaith Ieuenctid, Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru 2019 ac Egwyddorion a Dibenion Gwaith Ieuenctid.<br>• Dealltwriaeth o Fframweithiau Lles megis y Pum Ffordd at Les.<br>• Gwybodaeth a dealltwriaeth rhagorol o'r materion a wynebir gan bobl ifanc |
| **Cymwysterau Hanfodol** | • Cymhwyster lefel 3 neu uwch mewn Gwaith Ieuenctid a Chymunedol neu lefel 2 gyda phrofiad sylwedd<br>• Yn gymwys i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg neu wedi cofrestru eisoes<br>• Gwiriad Datgelu Boddhaol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.<br>• Geirdaon rhagorol gan gyflogwyr |
| **Sgiliau Hanfodol** | • Gwybodaeth a dealltwriaeth rhagorol o'r materion a wynebir gan bobl ifanc<br>• Y gallu i gefnogi'r gymuned LHDTC+.<br>• Y gallu i gefnogi pobl ifanc niwroamrywiol.<br>• Sgiliau cyfathrebu rhagorol a gallu i weithio'n dda gyda phobl ar bob lefel.<br>• Sgiliau arwain rhagorol<br>• Sgiliau trefnu rhagorol<br>• Gallu i reoli llwyth gwaith a blaenoriaethu'n unol â hynny<br>• Sgiliau gwaith tîm rhagorol<br>• Yn gallu llunio adroddiadau prosiect clir a chryno.<br>• Y gallu i weithio o'i ben a'i bastwn ei hun<br>• Yn gallu i eiriol dros hawliau pobl ifanc and yn sicrhau fod ei lleisiau yn llunio'r gefnogaeth y maen nhw'n ei derbyn.<br>• Sgiliau TG rhagorol – yn gallu defnyddio holl feddalwedd a swyddogaethau Microsoft Office<br>• Profiad o alwadau fideo ar Zoom a Microsoft Teams<br>• Awydd gwirioneddol i ddysgu a datblygu, gan fabwysiadu ymagwedd hyblyg<br>• Y gallu i atal neu chwalu rhwystrau a wynebir gan bobl ifanc o ran cyfranogi<br>• Y gallu i helpu i addysgu pobl ifanc i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. |
| **Sgiliau Dymunol** | • Ymwybyddiaeth o'r dulliau ar gyfer gweithio gyda phobl niwroamrywiol<br>• Hyfforddiant mewn cymorth cyntaf iechyd meddwl, ymwybyddiaeth o gamddefnyddio sylweddau neu d gwrthdaro.<br>• Y gallu i siarad Cymraeg<br>• Trwydded yrru lawn |
| **Amgylchiadau'r swydd** | • Caiff y prosiect ei gyflawni yn Abertawe.<br>• Bydd yn golygu gweithio nosweithiau Gwener ac efallai un noson arall bob wythnos<br>• Efallai bydd angen teithio i ardaloedd cyfagos o dro i dro. |
| **Disgwyliadau** | • Dealltwriaeth gref o'r anghenion mewn cymunedau difreintiedig<br>• Ymagwedd dosturiol at gydraddoldeb ac amrywiaeth<br>• Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol trwy hyfforddiant a dysgu gydol oes<br>• Yn gallu gweithio oriau hyblyg gan y bydd angen gwaith gyda'r hwyr ac ar benwythnosau yn rheolaidd<br>• Parodrwydd i deithio ledled Cymru yn ôl y gofyn |
| **Rhinweddau** | • Angerdd mawr dros gynrychioli lleisiau pobl ifanc |

| | |
|---|---|
| **Personol** | • Ymagwedd dosturiol, ddi-feirniadol, ac sy'n canolbwyntio ar atebion at gefnogi pobl ifanc.<br>• Yn angerddol ynghylch pobl ifanc a'u dyfodol<br>• Hyderus a rhagweithiol<br>• Yn frwdfrydig, wedi'i ysgogi ac yn broffesiynol<br>• Yn gyfrifol a gellir ymddiried ynddo/ynddi<br>• Yn gefnogol ac empathig<br>• Yn gallu gweithio fel rhan o dîm<br>• Yn arloesol, ystwyth a hyblyg<br>• Yn canolbwyntio ar ddatrysiadau |